# Strwythuro cyflwyniad

Dyw siarad o flaen pobl eraill ddim wastad yn hawdd. Ond er mwyn gwerthu cynnyrch, cyfathrebu gyda thîm, neu greu argraff mewn cyfweliad, mae'n bwysig deall sut i roi cyflwyniad effeithiol at ei gilydd.

Gallet ti ei wneud e fel hyn…

Neu fel hyn…

Ond i gysylltu gyda dy gynulleidfa a chyfathrebu'n glir, mae 'na ffyrdd llawer gwell.

I ddechrau, eglura beth yn union rwyt ti eisiau ei ddweud.

Dwed dy fod ti'n lansio gwasanaeth taith ysbryd newydd ac eisiau gwneud cyflwyniad i dy ddarpar-gwsmeriaid, bydd angen iddyn nhw wybod beth wyt ti'n gynnig, a sut i ddod o hyd i ti.

Nesaf, sut wyt ti'n mynd i strwythuro dy gyflwyniad?

Eglura ar y dechrau yn union beth wyt ti'n mynd i'w drafod, fel bod y gynulleidfa'n canolbwyntio ar y cyflwyniad o'r cychwyn, yn hytrach na breuddwydio am eu brecwast.

Felly, cyflwyna dy hun, wedyn y pwnc. Er enghraifft, "Helo, Owen ydw i. A heddiw dw i'n mynd i drafod fy ngwasanaeth newydd - Teithiau Ysbrydion Ysbrydoledig."

Nesaf, bydd angen bachu sylw'r gynulleidfa.

Gwna hyn drwy ofyn cwestiwn neu ddweud jôc, fel "Pa dŷ crand yng Nghymru sy'n gartref i bymtheg o ysbrydion?"

Ond paid ag ateb y cwestiwn yn syth. Gad iddyn nhw wybod bod mwy i ddod yn hwyrach yn y cyflwyniad.

Felly, dechrau da, ond ble nesaf?

Defnyddia ymadroddion allweddol i dywys y gynulleidfa ar siwrnai fydd yn eu helpu i ddilyn trywydd y cyflwyniad.

Ymadroddion fel, "Dw i'n mynd i ddechrau drwy drafod ein project newydd" neu "wedi edrych ar hynny, dw i nawr am ymhelaethu'n bellach." Mae'r geiriau'n creu bylchau naturiol yn llif y cyflwyniad ac yn ei gwneud hi'n haws symud o un cyflwynydd i'r llall.


© Hawlfraint BBC

Mae'r geiriau'n creu bylchau naturiol yn llif y cyflwyniad, sy'n ei gwneud hi'n haws symud o un cyflwynydd i’r llall.

Ardderchog. Rwyt ti wedi cadw'r gynulleidfa'n effro. Felly’r cwbl rwyt ti angen nawr yw diweddglo deinamig.

Dyma gyfle i grynhoi dy neges a gadael argraff a hanner gyda’r gynulleidfa.

Cofio’r cwestiwn ofynaist ti ar ddechrau’r cyflwyniad? Wel, nawr yw’r amser i roi'r ateb, a dweud mai Plas Teg ger yr Wyddgrug yw'r tŷ crand sydd, yn ôl pob sôn, yn gartref i bymtheg o ysbrydion. Ffordd wych o greu cydbwysedd da a chasgliad cryf.

Felly, agoriad, prif gorff y cyflwyniad a chasgliad.

Neu'n syml - dyweda wrth y gynulleidfa beth rwyt ti am ei ddweud, wedyn dyweda fe, ac yna dyweda wrthyn nhw beth ddywedaist ti.

A chofia ddiolch iddyn nhw am wrando, hynny yw os ydyn nhw’n dal yn effro.


© Hawlfraint BBC